

Beirniadaeth Cyfansoddi Cerddoriaeth Bl 6 ac iau – rhif 333

Beirniad: Elin Angharad Davies

Derbyniwyd saith cyfansoddiad i'r gystadleuaeth hon.

Cyflwynwyd cyfansoddiadau ar gyfer y piano gan EOS a PILI PALA. Mae'r ddau gyda chlust dda am alaw. Y prif wendid yw'r diffyg amrywiaeth harmonig, ac fe ddaw hynny gyda phrofiad rwy'n siŵr.

Caneuon a gafwyd gan YR HIPPO HYLL a DILYS. Yn ngwaith YR HIPPO HYLL ceir cytgan fachog, rap a defnydd llawn dychymyg o'r offerynnau. Nid yw'r geiriau wedi eu gosod yn gwbl gywir o ran rhythm ac mae'r un peth yn wir am waith DILYS- sy'n croesawu pawb i Eisteddfod Sir Ddinbych. Serch hynny, dyma gân fach hwyliog a chofiadwy.

Yn drydydd am wals i'r piano mae NATHANIEL REED. Yn wahanol i'r ddau gyfansoddiad arall i'r piano ceir yma amrywiaeth yn y gwedd gyda'r alaw yn trosglwyddo o'r llaw dde i'r llaw chwith. Mae angen ychydig mwy o ddatblygiad eto o ran harmoni a ffurf i greu cyfanwaith.

Dyfarnaf yr ail wobr i gyfansoddwr mwyaf arbrofol y gystadleuaeth sef RWSIA am ddarn sy'n disgrifio daeargryn. Cyfansoddiad i biano, clarinét a sielo yw hwn sy'n gneud defnydd da o nodau pedal, ostinati a nodau cromatig, er fod y gwedd ychydig yn wag ar adegau.

Cân o'r enw 'Nadolig Gwyrdd' gan Y CYMRO BACH sy'n dod i'r brig. Er mai recordiad offerynnol yn unig a gafwyd yma, ceir yma ffurf pennill a chytgan ac adran gyferbyniol, ac mae'r offeryniaeth a'r harmoni'n ddiddorol a chromatig dros ben gan gloi'n effeithiol gyda Tierce de picardie. Ceir yma alawon cofiadwy ac, o ychwanegu geiriau, byddai hon yn gân ardderchog!

Llongyfarchiadau mawr i bawb a daliwch ati i feithrin ac ymarfer eich doniau creadigol.